Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 8 Mehefin 2016

Amser y cyfarfod: 13.30

4(v5)

1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

3 Datganiad gan y Prif Weinidog: Bil Cymru

(45 munud)

4 Datganiad gan y Prif Weinidog: Tata Steel

(45 munud)

Gweler y Datganiad Ysgrifenedig 27 Mai 2106

5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith: Pencampwriaeth Pêl-droed Ewrop

(30 munud)

6 Cynnig i atal Rheol Sefydlog

(5 munud)

NNDM6017 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal y rhan honno o Reol Sefydlog 7.1 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ystyried cynnig i benodi aelodau'r Comisiwn heb fod yn fwy na 10 diwrnod ar ôl penodi'r Pwyllgor Busnes, er mwyn caniatáu i NNDM6018 gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 8 Mehefin 2016.

7 Cynnig i benodi Comisiwn y Cynulliad

(5 munud)

NNDM6018 Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 7.1, yn penodi Joyce Watson (Llafur Cymru), Dai Lloyd (Plaid Cymru), Suzy Davies (Ceidwadwyr Cymreig) a Caroline Jones (UKIP Cymru) yn aelodau o Gomisiwn y Cynulliad.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am13.30, Dydd Mawrth, 14 Mehefin 2016

Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 3 Mehefin 2016 i'w hateb ar 8 Mehefin 2016

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Nick Ramsay (Mynwy): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddiwygio llywodraeth leol? OAQ(5)0020(FM)

2. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol Rhanbarth Dinas Bae Abertawe? OAQ(5)0023(FM)

3. Eluned Morgan (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i helpu i fynd i'r afael â phroblem newid yn yr hinsawdd? OAQ(5)0030(FM)

4. Rhianon Passmore (Islwyn): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu sut mae parhad aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd yn effeithio yn ei hanfod ar economi Islwyn? OAQ(5)0036(FM)

5. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa drafodaethau mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal ynglyn â llysoedd yng Nghymru sydd wedi eu clustnodi i gau gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder? OAQ(5)0027(FM)**W**

6. David Rees (Aberafan): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weithgareddau'r tasglu dur ers diddymiad y Pedwerydd Cynulliad? OAQ(5)0032(FM)

7. Mick Antoniw (Pontypridd): A wnaiff Llywodraeth Cymru ystyried gwneud sylwadau i Lywodraeth y DU i gefnogi galwadau glowyr Cymru ac undeb NUM De Cymru am ymchwiliad i ddigwyddiadau Orgreave ym mis Mehefin 1984? OAQ(5)0026(FM)

8. Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am waddol Pencampwriaethau Pel-droed Ewropeaidd 2016 i Gymru? OAQ(5)0037(FM)**W**

9. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am drefniadau trafnidiaeth ym Mhort Talbot? OAQ(5)0029(FM)

10. Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am weinyddu Cynllun y Taliad Sylfaenol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(5)0034(FM)

11. Janet Finch-Saunders (Aberconwy): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ad-drefnu llywodraeth leol? OAQ(5)0024(FM)

12. Paul Davies (Preseli Sir Benfro): Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau iechyd yn Sir Benfro? OAQ(5)0019(FM)

13. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru): Pa feini prawf a ddefnyddia Llywodraeth Cymru i gyfrif gwerth effaith gwariant Croeso Cymru ar economi Cymru? OAQ(5)0028(FM)

14. Darren Millar (Gorllewin Clwyd): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau casglu gwastraff llywodraeth leol? OAQ(5)0021(FM)

15. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd): Pa bryd y bydd y Prif Weinidog yn cwrdd nesaf ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru? OAQ(5)0033(FM)W

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn
Dydd Mawrth 14 Mehefin a dydd Mercher 15 Mehefin 2016
Dydd Mawrth 21 Mehefin a dydd Mercher 22 Mehefin 2016
Dydd Mawrth 28 Mehefin a dydd Mercher 29 Mehefin 2016

Dydd Mawrth 14 Mehefin 2016

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Caniatâd Tybiedig ar gyfer Rhoi Organau – y chwe mis cyntaf (30 munud)
- *Busnes arall y Llywodraeth i'w benderfynu*

Busnes y Cynulliad

- Cynnig i ddirymu Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) (Diwygio) 2016 (30 munud)

Dydd Mercher 15 Mehefin 2016

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 16.1 i sefydlu Pwyllgor ar Offerynnau Statudol a Materion Cyfansoddiadol (5 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer – Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru) (30 munud)

Dydd Mawrth 21 Mehefin 2016

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- *Busnes arall y Llywodraeth i'w benderfynu*

Dydd Mercher 22 Mehefin 2016

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer – Julie Morgan (Gogledd Caerdydd) (30 munud)

Dydd Mawrth 28 Mehefin 2016

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)

- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- *Busnes arall y Llywodraeth i'w benderfynu*

Dydd Mercher 29 Mehefin 2016

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (45 munud)

Busnes y Cynulliad

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl fer - Rhianon Passmore (Islwyn) (30 munud)